**EUR-02-01 (p1)**

**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **4 Ebrill 2001** |
| **Amser** | **9.00 am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl** | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**Pwrpas**

Rhoi'r newyddion diweddaraf ar ystod o faterion sydd wedi dod i'r amlwg ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

Bod aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cefndir**

31 Ionawr 2001 oedd dyddiad cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Gwelwyd llawer o ddatblygiadau ers hynny, ac fe'u rhestrir isod.

**Cyngor Gweinidogion**

Mynychodd Carwyn Jones y Cyngor Amaethyddiaeth ar 27 Chwefror. Yr oedd Jane Davidson i fod i fynychu'r Cyngor Addysg a Ieuenctid ar 12 Chwefror, ond newidiwyd yr agenda ac nid oedd angen iddi fynd wedi'r cwbl.

**Dydd Gyl Dewi a digwyddiadau/ymweliadau eraill**

Un o uchafbwyntiau Dydd Gwyl Dewi oedd ymweliad holl bwysig **An Taoiseach, Bertie Ahern TD** â'r Cynulliad. Cyfunodd ei ymweliad â ni gydag anerchiad cyweirnod i'n Fforwm ar Gymru, Ewrop a'r Byd, yn y Celtic Manor yng Nghasnewydd.

Daeth cynyrchiolwyr o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE i'r Fforwm, ynghyd â nifer o aelodau'r Corfflu Llysgenhadol yn Llundain gan gynnwys Uchel-Gomisiynwyr a Llysgenhadon. Yn ddieithriad, roedd y rhai a fynychodd yn teimlo bod y digwyddiad, a chyfraniad An Taoiseach, yn llwyddiant ysgubol. Yn wir, gallai fod yn batrwm ar gyfer digwyddiadau yn y dofodol i ddathlu ein Diwrnod Cenedlaethol.

Roedd **Llysgennad Prydain yn Iwerddon, Syr Ivor Roberts,** hefyd yn bresennol yn y Fforwm. Bûm mewn cyfarfod ag ef ar ôl hynny, sef ar 2 Mawrth a buom yn trafod y potensial o ran mewnfuddsoddi o Iwerddon a'r posibiliadau o ran allforion i fusnesau o Gymru o ystyried cryfder parhaus economi Iwerddon. Mae cysylltiadu cryf rhwng y Llysgennad a Chymru ac mae'n awyddus i'n helpu i hybu cynhyrchion a chynnyrch o Gymru. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o gynnal derbyniad ar gyfer cwmnïau o Iwerddon a allai fod â diddordeb mewn buddsoddi yng Nghymru. Rwyf wedi gofyn a oes modd paratoi pecyn gwybodaeth ar gyfer y Llysgennad i'w helpu i hybu Cymru yn Iwerddon.

Bu Syr Ivor mewn nifer o gyfarfodydd a bu'n ymweld â sawl lle ar 2 Mawrth. Yn eu plith yr oedd cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, yr Ysgrifennydd Parhaol ac uwch-swyddogion eraill. Bu hefyd yn ymweld â Stadiwm y Mileniwm (mae ganddo rôl i'w hybu yn Iwerddon) ac Adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

Ar 13 Mawrth, bu **Dennis Haughey and Dermot Nesbitt**, Gweinidogion Cynulliad Gogledd Iwerddon, hefyd yn ymweld â'r Cynulliad. Diben eu hymweliad oedd trafod ystod o faterion Ewropeaidd, gan gynnwys rôl y Pwyllgor. Yn ystod eu hymweliad, cawsant gyfle i gwrdd â Val Feld AC ac â minnau.

Ar 29 Mawrth, daeth **Dirprwy Lywydd Cyngor Rhanbarthol Skane**, Sweden a Mrs Kerstin Hardenstedt, Aelod o'r Cyngor Rhanbarthol, ynghyd â dau swyddog o Adran Cysylltiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol a Gofal Iechyd Skane a swyddog o Adran Strategaeth Skane, Dinas Malmo, i ymweld â'r Cynulliad ar daith astudio.

Roedd gan yr ymwelwyr ddiddordeb mewn dysgu am ddatganoli yng Nghymru a dilynasant raglen lawn, gan gynnwys cyfarfodydd gydag Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau, a'r Dirprwy Brif Weinidog a swyddogion o'r Is-adran Llywodraeth Leol ac Uned Gyfansoddiadol y Cynulliad. Fe'u gwahoddwyd hefyd i fynychu cyfarfod llawn i arsylwi a buont ar daith o gwmpas y Ganolfan Ymwelwyr yng Nglanfa'r Cynulliad.

**Cydbwyllgor y Gweinidogion**

Cafodd y Cydbwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop cyntaf ei gynnull yn Swyddfa'r Cabinet ar 1 Mawrth. Bûm yn cyfrannau am ran o'r cyfarfod drwy gyswllt fideo o Gaerdydd.

Roedd yr agenda yn cynnwys trefniadau i drin busnes yr UE yng ngoleuni datganoli a Memorandwm Tramor a Chymanwlad ar Gyngor Ewropeaidd Stockholm ym mis Mawrth 2001. Mae Cyngor Stockholm yn canolbwyntio ar gyflogaeth, ehangu a'r amgylchedd.

Bydd Cydbwyllgor y Gweinidogion arall yn hwyrach eleni i ystyried goblygiadau llywyddiaeth Gwlad Belg.

Mae trefniadau ar y gweill i drefnu bod Lode Williams, Llysgennad Gwlad Belg, yn mynychu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 27 Mehefin.

**Blaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd**

Cyhoeddwyd rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer 2001 ar 1 Chwefror 2001. Mae Catherine Eva, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn yng Nghymru, wedi cyflwyno papur byr yn amlinellu gwaith y Pwyllgor a bydd Des Clifford yn amlinellu'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i Gymru (Eitem 2 cyfarfod heddiw)

**Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd**

Bwriadwyd cyflwyno papur yn amlinellu rôl y Fforwm yn y dyfodol gerbron y Pwyllgor heddiw. Nid wyf eto wedi cael ymatebion gan arweiniwyr y pleidiau gwleidyddol eraill yn mynegi'u barn a chaiff papur ei gyflwyno unwaith y byddaf wedi derbyn y rhain.

Yn y cyfamser, ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ers cryn amser ac rwy'n bwriadu parhau â'r trefniadau i gynnal cyfarfod yn y Gogledd ym mis Medi ar ddatblygu gwledig.

**Yr Agenda Ôl-Nice**

Ar 12 Chwefror, ysgrifennais at Keith Vaz, Gweinidog Ewrop yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, gan dynnu'i sylw at y pwysigrwydd o ganiatáu i'r Cynulliad chwarae rhan lawn mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol mewn perthynas â'r Gynhadledd Rynglywodraethol nesaf yn 2004. Gofynnais iddo hefyd roi sylw arbennig i ddiddordeb y Cynulliad mewn unrhyw drafodaeth ar "Charter of Competencies".

**Blaenoriaethau Stockholm**

Cyfarfu'r Comisiwn Ewropeaidd yn Stockholm ar 23 a 24 Mawrth ar gyfer ei Gyfarfod Gwanwyn Blynyddol ar gwestiynau economaidd a chymdeithasol.

Bu Cyngor Ewropeaidd Stockholm yn:

- Ymdrin â'r her ddemograffig o boblogaeth sy'n heneiddio a phoblogaeth sy'n cynnwys llai o bobl sy'n gweithio;
- Trafod sut i greu mwy o swyddi a swyddi gwell, cyflymu'r newid economaidd, moderneiddio model cymdeithasol Ewrop a defnyddio technoleg newydd;
- Cyhoeddi canllawiau strategol ar gyfer y Canllawiau Polisi Economaidd Cyffredinol er

mwyn sicrhau twf parhaus ac amgylchiadau macro-economaidd sefydlog;

- Cytuno i wella'r gweithdrefnau fel bod cyfarfod gwanwyn y Cyngor Ewropeaidd yn dod yn ganolbwynt ar gyfer adolygiad blynyddol o gwestiynau economaidd a chymdeithasol. Yn y cyd-destun hwn, bydd Cyngor Ewropeaidd Goteborg ym mis Mehefin yn rhoi ystyriaeth yn yr adolygiad hwn i'r amcan cyffredinol y cytunwyd arno, sef cynaliadwyedd;
- Cytuno i ddatblygu ffyrdd o gynnwys y gwledydd sy'n ymgeisio yn nodau a gweithdrefnau strategaeth Lisbon.

**Polisi Cydlyniad**

Mae'r Ail Adroddiad Cydlyniad yn adolygu i ba raddau y llwyddwyd i leihau gwahaniaethau rhanbarthol a chenedlaethol ledled Ewrop trwy ddefnyddio cronfeydd strwythurol a chronfeydd cydlyniad. Mae hefyd yn pennu'r fframwaith ar gyfer y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn trefnu ail fforwm ar gydlyniad economaidd a chymdeithasol ar 21 Mai (pm) a 22 Mai (am) yn y Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel. Fel rhan o'r Fforwm, cynhelir dau gyfarfod llawn ar gyfer tua 2,000 o bobl i drafod yr Adroddiad Cydlyniad. Ar ôl i'r Dirprwy Brif Weinidog gytuno, mae'r Comisiwn wedi gwahodd y Dirprwy Brif Weinidog, Phil Williams AC, Val Feld AC ac Alun Cairns AC. Yn ogystal, mae 2 swyddog o'r Cynulliad ac un o Awdurdod Datblygu Cymru wedi cael gwahoddiad.

**Cydymffurfio**

Mae Rheol Sefydlog 15 yn ymdrin â gweithgaredd y Pwyllgor. Ymgynghorwyd â Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad ac mae'n fodlon â'r elfennau cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn deillio o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.